Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 068/2008
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2008

Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Cynulleidfa

Yr holl gyrff ieuenctid sy'n gweithio o fewn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, gan gynnwys ymarferwyr, rheolwyr a rhanddeiliaid eraill. Sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu cyrsiau gwaith ieuenctid proffesiynol.

Trosolwg

Dogfen wybodaeth yw hon, a'i nod yw helpu'r sector gwaith ieuenctid i gyflwyno ADCDF. Mae'r 'Ddealltwriaeth Gyffredin' yn ymdrin ag ystod o weithgareddau ADCDF sy'n dangos sut y gellid ymgorffori'r gwaith ar bob lefel o fewn y sector. Mae hefyd yn cynnig ambell awgrym ymarferol ar gyfer symud y gwaith yn ei flaen.

Camau i'w cymryd

Dim camau i'w cymryd - er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen wybodaeth hon at:
Jane Nettleton
Yr Uned Strategaeth
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1402
Ffacs: 029 2082 6109
E-bost: esdgc@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: esdgc-cymru.org.uk

Copïau ychwanegol

I gael copïau ychwanegol cysylltwch â'r cyfeiriad uchod.
Gallwch hefyd weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:
http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/sustainabledevelop/?lang=cy

Dogfennau cysylltiedig

Cynllun gweithredu ADCDF 2006
Cynllun Gweithredu ADCDF, diweddariad Ebrill 2008
Dealltwriaeth Gyffredin ADCDF ar gyfer ysgolion, Gorffennaf 2008
Gwybodaeth ADCDF ar gyfer darpar athrawon ac athrawon newydd, Gorffennaf 2008
ADCDF yn y sector Addysg Bellach, Medi 2008

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 4915 1
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008
CMK-22-07-332
D3590809

Diolch i rspb-images.com am ddarparu llun 2 sydd ar y clawr

Cynnwys

Crynodeb 2

1 Cyflwyniad 3

2 ADCDF yn rhan annatod o Waith Ieuenctid 7

3 Y Cyd-destun Polisi 10

4 ADCDF a 4 Colofn Gwaith Ieuenctid; Addysgu, Cyfranogi, Mynegi a Grymuso 16

5 Themâu a Chysyniadau ADCDF 20

6 Cynnydd, Cydnabyddiaeth a Mesur Effaith 30

7 Ymagwedd Gwasanaeth Cyfan, Integredig at ADCDF 33

Cydnabyddiaeth: Diolch i'r ymarferwyr a'r bobl ifanc hynny a gyfrannodd at ddatblygu'r ddogfen hon

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Crynodeb

"Mae'r newid yn yr hinsawdd, tlodi, gwrthdaro a phwysau defnyddwyr i gyd yn rhan o'r byd sydd ohoni. Nod ADCDF yw dod o hyd i ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ac o fynd i'r afael â chanlyniadau ein ffyrdd o fyw. Mae'r hefyd yn ein paratoi ar gyfer byw yn gynaliadwy yn yr unfed ganrif ar hugain, yn ddinasyddion byd-eang"

Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu Ebrill 2008 (diweddariad)

Nod y ddogfen hon yw hybu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) yn y sector gwaith ieuenctid. Mae'n seiliedig ar yr holl waith sy'n cael ei gyflawni yn y maes, ac felly mae'n cynnwys safbwyntiau ymarferwyr a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r ddogfen yn cynnig gwybodaeth gefndirol am natur y gwaith ac yn nodi pam y mae'n bwysig i'r holl randdeiliaid ymwneud ag ADCDF. Er mwyn helpu ymarferwyr a rheolwyr sy'n llai cyfarwydd â'r cysyniad, mae hefyd yn nodi'r mathau o gamau y gellid eu cymryd.

Mae'r sector gwaith ieuenctid eisoes yn weithgar yn y maes ac â'r ddogfen ymlaen i nodi agweddau i'w datblygu, gan gynnwys:

- Ymrwymiad uwch-reolwyr
- Ymgorffori ADCDF yn y ddarpariaeth
- Datblygu partneriaethau a chysylltiadau cynhyrchiol a all helpu i gyflwyno ADCDF
- Datblygu gwybodaeth a sgiliau drwy hyfforddiant parhaus
- Syniadau ar gyfer cyflwyno ADCDF.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

1 Cyflwyniad

'… allwch chi ddim ag edrych ar faterion ar eu pennau eu hunain. Yn y byd sydd ohoni mae angen newid addysg i ymgorffori'r gymdeithas y mae'r person ifanc yn byw ynddi. Mae llawer o ragfarn yn ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth, felly o ddarparu mwy o addysg nid yn unig am yr hyn sydd o'n cwmpas yn lleol ond hefyd am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn rhyngwladol, efallai y bydd gan bobl ifanc, wrth wylio'r newyddion neu wrth bleidleisio neu wrth wneud pethau syml fel yna sy'n effeithio ar eu bywydau, well dealltwriaeth o'u sefyllfa'.

Cynrychiolydd y Ddraig Ffynci

Pam Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF)?

Mae pobl ifanc yn tyfu i fyny mewn cymdeithas sy'n fwyfwy cyd-ddibynnol a byd-eang, ac oherwydd hynny mae cyfleoedd, heriau a phryderon newydd yn eu hwynebu. Mae dyletswydd ar bobdarparwr i fyfyrio ar ei wasanaethau i bobl ifanc, ac ar yfforddy cynhelir y corff, er mwyn ymateb yn effeithiol i'r newidiadau yn anghenion dysgu a datblygu pobl ifanc.

Bydd ADCDF yng nghyd-destun gwaith ieuenctid yn cychwyn gyda phrofiadau'r bobl ifanc. Bydd yn eu hannog i feddwl yn feirniadol am y cysylltiadau rhwng eu bywydau a'u hanes hwy eu hunain a bywydau a hanes pobl yn eu cymuned a ledled y byd. Bydd yn nodi'r cysylltiadau rhwng cymdeithas, economi, yr amgylchedd a gwleidyddiaeth. Bydd yn myfyrio ar agweddau a gwerthoedd, ac yn datblygu sgiliau pobl ifanc fel y gallant chwarae rhan weithredol yn y broses o greu byd tecach a mwy cynaliadwy.

Defnyddir y term 'gwaith ieuenctid byd-eang' yn aml i ddisgrifio ymagwedd at waith ieuenctid sy'n ymgorffori prif egwyddorion ac arferion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r term 'addysg ddatblygu' hefyd wedi'i ddefnyddio ers tro i ddisgrifio ymagwedd debyg at ddysgu.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Nid yw ADCDF yn beth newydd yn y sector gwaith ieuenctid. Mae llawer o ymarferwyr gwaith ieuenctid a phobl ifanc wedi bod yn weithgar yn y maes ers blynyddoedd, wedi'u hysgogi gan eu cymhelliant a'u hysbrydoliaeth eu hunain a chan synnwyr o gyfrifoldeb. Gwnânt hyn am eu bod yn ymateb i newidiadau'r byd sydd ohoni; iddynt hwy, yn syml, mae'n ffordd o gynnal arferion da mewn gwaith ieuenctid.

Os ymgorfforir ADCDF yn iawn yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid, bydd yn cyfrannu at greu byd tecach a mwy cynaliadwy. Bydd pobl ifanc, ymarferwyr gwaith ieuenctid, cyrff cyfan, a chymunedau ehangach ar eu hennill.



"Nid oes gan lawer o ddarparwyr oedolion a gwaith ieuenctid, partneriaethau plant a phobl ifanc, a rhwydweithiau dysgu oedolion ddealltwriaeth glir o'r ystod o fanteision addysgol a ddaw o ymgorffori ADCDF yn eu gwaith. Nid yw rheolwyr strategol yn cynllunio'n ddigon da i wneud yn siŵr bod llawer o bolisïau sefydliadol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cael dysgwyr i weithredu. Nid yw llawer o ddarparwyr yn arfarnu effaith ADCDF yn eu rhaglenni ac yn aml, maent yn aneglur ynghylch yr effaith y mae eu gwaith yn ei chael ar ddysgwyr."

(Un o brif ganfyddiadau Estyn, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru, Awst 2008)

Beth yw diben y ddogfen hon?

Diben y ddogfen hon yw darparu Dealltwriaeth Gyffredin o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru. Dylai'r Ddealltwriaeth Gyffredin hon ei gwneud yn bosibl i gyrff leoli eu hymarfer cyfredol yn y darlun ADCDF cyfan, er mwyn gweld ble y gellir creu cysylltiadau pellach, neu sut i ddyfnhau'r dysgu. Dylai'r ddogfen hon leoli ADCDF yn y ddarpariaeth graidd, a'i gwneud yn rhan annatod o ymarfer y sefydliad, yn hytrach na'i chyflwyno drwy brosiectau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau dysgu eraill. Gall cyrff neu'r gwasanaeth cyfan ddod o hyd i ganllawiau ar sut i ddatblygu

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

ymagwedd gadarn, integredig at ADCDF yng nghynlluniau cyflwyno cyrff ac ym mholisïau sefydliadau, ynghyd â gwybodaeth am effaith gadarnhaol ymgorffori ADCDF a'r heriau a all godi yn ei sgil.

Datblygwyd y Ddealltwriaeth Gyffredin hon ar sail profiadau ymarferwyr gwaith ieuenctid a phobl ifanc sydd eisoes yn ymwneud ag ADCDF. Mae'n cynnig ffyrdd o wneud y syniadau haniaethol sydd ymhlyg yn niffiniadau a chysyniadau allweddol ADCDF yn fwy dealladwy a hygyrch i ddarparwyr ac ymarferwyr gwaith ieuenctid sydd ond yn dechrau ymchwilio i'r maes dysgu hwn. Gall y rhai sydd eisoes yn cyflwyno ADCDF ddefnyddio'r ddogfen hon yn offeryn i ddatblygu eu hymarfer ymhellach, neu efallai i gymharu eu hymarfer ADCDF unigol ag ymarfer eraill.

Mae'r Ddealltwriaeth Gyffredin hon yn rhan o strwythur cymorth ehangach ar gyfer ADCDF mewn gwaith ieuenctid. Mae yna daflen, 'Beth All Un Person ei Wneud' sy'n cyflwyno ADCDF mewn gwaith ieuenctid. Bydd y 'Pecyn Cymorth ADCDF mewn Gwaith Ieuenctid' yn galluogi darparwyr i ymgorffori ADCDF yn llawn, ac mae'n cynnwys syniadau am weithgareddau ac astudiaethau achos o bob rhan o Gymru sy'n enghreifftio arferion da.

Mae ehangder ADCDF yn golygu bod sefydlu partneriaethau yn hanfodol, er mwyn defnyddio arbenigedd cyrff gwaith ieuenctid y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Os sefydlir partneriaethau llwyddiannus, ni fydd prosiectau unigol yn gweithio ar eu pennau eu hunain, bydd llai o ddyblygu, bydd adnoddau'n cael eu rhannu'n amlach, a bydd cyfle i gyflymu datblygiad ADCDF. Mae gwaith ieuenctid wedi llwyddo i gyflwyno dysgu anffurfiol i fyd dysgu ffurfiol, ac mae mwy a mwy o enghreifftiau o bartneriaethau llwyddiannus rhwng sectorau dysgu anffurfiol a ffurfiol. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth weithio gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol.

Beth yw Dealltwriaeth Gyffredin?

Bwriad y Ddealltwriaeth Gyffredin hon yw egluro'r hyn a olygwn pan soniwn am ADCDF, ac yn arbennig ADCDF mewn sefyllfaoedd dysgu anffurfiol. Nid ei bwriad yw cyfyngu ar ymarfer drwy gulhau canfyddiadau o'r hyn yw ADCDF, neu o'r hyn y gall fod. Gall unrhyw

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

fater fod yn fan cychwyn ar gyfer ADCDF, ac i gynnwys pob person ifanc a gwneud y pwnc yn berthnasol mae angen ystod eang ac amrywiol o ddulliau. Fodd bynnag, o gyfuno egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid ag egwyddorion ac arferion ADCDF, mae'n bosibl gweld yr hyn y gellir/na ellir ei alw'n ADCDF mewn gwaith ieuenctid.

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen?

Lluniwyd y ddogfen hon ar gyfer pawb sy'n dilyn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru gyda phobl ifanc 11-25 oed, yn enwedig y Gwasanaeth Ieuenctid. Bydd ADCDF yn effeithio nid yn unig ar waith uniongyrchol gyda phobl ifanc, ond hefyd ar y ffordd y cynhelir y corff neu'r gwasanaeth cyfan. Bydd yn effeithio ar y ffordd y'i rheolir, ar y ffordd y caiff ei arwain, ar y ffordd y bydd yn hyfforddi ei weithlu, ac ar y ffordd y bydd yn hybu ei waith ieuenctid. Felly, mae'r ddogfen hon ar gyfer yr ymarferydd wyneb yn wyneb, yn ogystal ag ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm, hyfforddiant, datblygu polisïau, rheoli, gwasanaethau cymorth ac ati.

Y Broses

Ar hyn o bryd mae dogfennau Dealltwriaeth Gyffredin o ADCDF wedi'u llunio ar gyfer y sector ysgolion (ynghyd â dogfen ar wahân ar gyfer darpar athrawon ac athrawon newydd) a'r sector addysg bellach. Mae angen Dealltwriaeth Gyffredin annibynnol o ADCDF ar gyfer sefyllfaoedd dysgu anffurfiol, am fod ADCDF mewn lleoliadau gwaith ieuenctid yn dilyn yr un egwyddorion ag ymarfer gwaith ieuenctid; hynny yw, dylai fod yn addysgiadol, yn gyfranogol, yn rymusol ac yn fynegiannol. Felly, mae angen ymagwedd wahanol at ADCDF i ymagwedd ffurfiol y sector ysgolion. Wedi'r cyfan, bydd pobl ifanc yn ymwneud yn wirfoddol â gwaith ieuenctid a hwy fydd yn gosod yr agenda. Ar y llaw arall, mae'n rhaid iddynt fynd i'r ysgol, ac mae'r cwricwlwm yno yn fwy penodol ac yn cael ei arwain gan oedolion.

Fe wnaeth gweithgor o randdeiliaid helpu i ddatblygu'r Ddealltwriaeth Gyffredin hon ac ymgynghorwyd â chynifer o bobl â phosibl yn yr amser oedd ar gael. Bydd y Ddealltwriaeth Gyffredin hon yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd gan fod ADCDF yn faes sy'n datblygu'n gyflym.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

2 ADCDF yn rhan annatod o Waith Ieuenctid

Mae ADCDF yn annog pobl ifanc i feddwl yn feirniadol am y byd, ac mae'n cydnabod bod ein bywydau beunyddiol, oherwydd globaleiddio, yn gysylltiedig â bywydau pobl eraill mewn ffyrdd niferus a chymhleth. Yma yng Nghymru mae arwyddion o'n byd cydgysylltiedig ym mhobman, a theimlwn effaith materion byd-eang bob dydd yn lleol. Er enghraifft, mae prinder olew wedi arwain at brisiau uwch a bwyd drutach, mae newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i weithgarwch dynol, ac mae mwy o gynhyrchion Masnach Deg ar gael. Gelwir y cydgysylltiad cynyddol hwn yn globaleiddio ac mae iddo bump o wynebau cydgysylltiedig: yr wyneb diwylliannol; yr wyneb technolegol; yr wyneb economaidd; yr wyneb amgylcheddol; a'r wyneb gwleidyddol. Dywedir bod globaleiddio wedi 'lladd pellter', gan fod gwelliannau technolegol wedi trechu amser a lle, ac mae'r ffenomen yn effeithio arnom yn ein bywydau proffesiynol a phersonol fel ei gilydd.

Rydym yn datblygu'n anghynaliadwy ar hyn o bryd. Pe byddai pawb yn y byd yn defnyddio ac yn llygru cymaint â phoblogaethau'r gwledydd cyfoethocaf, byddai angen 3 o blanedau fel y Ddaear arnom i gynnal y ffordd hon o fyw. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn tyfu ledled y byd, ac mae anghyfiawnder a dosbarthu anghyfartal yn ffenomen fyd-eang. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn amlwg nid yn unig rhwng gwledydd ond hefyd oddi mewn iddynt. Agenda ADCDF yw creu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy, felly mae angen newid o ran ymddygiad a gweledigaeth.

Mae ADCDF yn ymateb i rai o'r materion pwysicaf sy'n wynebu'r byd a'r ddynoliaeth heddiw, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd, prinder tanwydd a bwyd, bioamrywiaeth a difodiant rhywogaethau, rhyfeloedd a therfysgaeth ryngwladol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, busnes rhyngwladol a'r farchnad swyddi fyd-eang, tlodi ac anghyfiawnder, hunaniaeth ac ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol.

Mae ADCDF mewn gwaith ieuenctid yn:

- Cydnabod y cysylltiadau rhwng ein bywydau ni a bywydau pobl eraill ledled y byd
- Cydnabod ein hanes ni, a hanes pobloedd eraill ledled y byd
- Ceisio cynnwys safbwyntiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn lleol ac yn fyd-eang

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

- Ymwneud ag anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Mynd i'r afael â'r berthynas rhwng grym, adnoddau a hawliau dynol
- Galluogi pobl ifanc i ddeall y grymoedd byd-eang sy'n llunio'u bywydau
- Rhoi i bobl ifanc y sgiliau i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac i weithredu
- Galluogi pobl ifanc i gwestiynu, i feddwl yn feirniadol, ac i empatheiddio.

Nid yw ADCDF yn:

- Gyfyngedig i waith prosiect
- Cyfres o gysyniadau neu themâu ar wahân
- Cyfrifoldeb i ddim ond un neu ddau o bobl yn y gwasanaeth neu'r corff
- Golygu trosglwyddo cyfres o atebion i ddysgwyr
- Rhywbeth ar wahân i ymarfer gwaith ieuenctid craidd.



Mae'r Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru (2007) yn nodi y dylai gwaith ieuenctid gydnabod pwysigrwydd datblygu cynaliadwy, a bod dinasyddiaeth yn cwmpasu cyfrifoldebau a hawliau fel dinasyddion byd-eang yn ogystal â rhai lleol a chenedlaethol. Mae'r Datganiad hwn hefyd yn galw'n benodol ar i waith ieuenctid yng Nghymru fynd i'r afael â materion fel parchu amrywiaeth, treftadaeth, a hunaniaeth, yn ogystal â materion amgylcheddol, gwleidyddol a chymdeithasol.

Beth yw'r gwahaniaeth, felly, rhwng ADCDF mewn gwaith ieuenctid a gwaith ieuenctid da? Dim llawer, yn ôl rhai. Mae gan waith ieuenctid draddodiad hir o helpu pobl ifanc i ddeall y byd o'u cwmpas, ac mae cysylltiad cryf rhwng y gwerthoedd a hyrwyddir gan waith ieuenctid megis cyfiawnder a chydraddoldeb a chyflwyno themâu byd-eang. Felly, mae ADCDF yng nghyd-destun gwaith ieuenctid yn gwbl gyson, ac mae llawer eisoes yn cyflwyno ADCDF mewn gwaith ieuenctid er nad ydynt o bosibl yn rhoi'r label hwnnw ar eu gwaith.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Mae ADCDF mewn gwaith ieuenctid yn golygu datblygu gwybodaeth a sgiliau i ddeall y byd o'n cwmpas. At hynny, mae'n golygu datblygu agweddau a gwerthoedd, ar sail yr wybodaeth hon, a fydd yn ysgogi unigolion a grwpiau i ddymuno creu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy. Ar adegau gall hyn ymddangos yn dasg amhosibl. Fodd bynnag, ni allwn ni sy'n oedolion wybod sut brofiad yw tyfu i fyny yn y byd sydd ohoni, a rhaid cofio bod pobl ifanc yn dod yn fwyfwy ymwybodol a gwybodus ynghylch y materion hyn sydd bellach yn rhan o'u bywydau beunyddiol.

Er ei fod o bosibl yn anodd i ni fel ymarferwyr amgyffred y we fyd-eang o weithred ac adwaith, achos ac effaith, a'r cysylltiad economaidd, amgylcheddol, gwleidyddol, technolegol a diwylliannol rhwng ein bywydau ni a bywydau eraill ledled y byd, mae'n bwysig cofio nad yw hyn o reidrwydd yn wir am y bobl ifanc yn ein grwpiau. Gall fod yn haws iddynt weld y cysylltiadau a'u dychmygu eu hunain yn ddinasyddion y tu hwnt i'n ffiniau cenedlaethol, yn ddinasyddion byd-eang â hawliau a chyfrifoldebau. Efallai eu bod eisoes, oherwydd technoleg cyfathrebu, yn teimlo'n aelodau o gymunedau byd-eang, ac efallai eu bod eisoes yn cydweithredu â phobl sy'n byw filoedd o filltiroedd i ffwrdd.

'Nid y bobl ifanc yn unig sy'n dysgu, mae'r gweithwyr ieuenctid hefyd yn dysgu sut i weithio gyda phobl ifanc ... mae'n bosibl nad yw rhai o'r gweithwyr ieuenctid yn gwybod am yr holl faterion a'r ffordd y byddant yn effeithio ar bopeth yn ogystal â'r pethau amlwg'.

Cynrychiolydd y Ddraig Ffynci

I grynhoi, nid yw ADCDF mewn gwaith ieuenctid yn golygu newid cyfeiriad mewn ffordd sylfaenol, ac nid yw'n bwnc i'w gyflwyno ar wahân. Bydd rhai yn sôn am sbectol, sy'n eich galluogi i weld eich ymarfer cyfredol drwy 'lensys' ADCDF. Mae'n golygu newid dull, a dylai gyfoethogi a gwella'r ymarfer gwaith ieuenctid cyfredol. Dylai fwrw goleuni newydd ar fywydau pobl ifanc, a chyfrannu at eu datblygiad personol a chodi eu hyder a'u hunan-barch.

Nid swyddogaeth yr ymarferydd gwaith ieuenctid yw bod yn arbenigwr, ond datblygu ei sgiliau a'i wybodaeth ar y cyd â'r bobl ifanc. Un sy'n hwyluso taith ddysgu yw'r ymarferydd gwaith ieuenctid, a'r daith honno'n cychwyn gyda phrofiadau pobl ifanc ac yn cael ei sbarduno gan eu diddordebau a'u gofalon. Gall cyflwyno ADCDF mewn gwaith ieuenctid fod yr un mor addysgiadol i'r ymarferydd ag i'r person ifanc, a dyna pam y mae hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr gwaith ieuenctid yn hanfodol.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

3 Y Cyd-destun Polisi

"If all education is for the future, then the future needs to be a more explicit concern of education. In the first decade of the 21st century the current state of the planet guarantees a future very different from today"

David Hicks

Mae ADCDF a gwaith ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn ddau faes polisi sydd wedi bod yn datblygu yng Nghymru, ac maent bellach yn cydgyfeirio. Mae ADCDF yn bolisi trawsbynciol sy'n berthnasol i bob sector addysg a'i ddiben yw prif-ffrydio a sicrhau ymagwedd corff cyfan. Mae'r datblygiadau polisi ym maes gwaith ieuenctid wedi canolbwyntio ar strategaethau i ddarparu gwasanaethau'n lleol trwy bartneriaethau, ar ddatblygu ymarfer drwy hyfforddiant a gweithgareddau datblygu'r gweithlu, ar ganlyniadau i bobl ifanc, ar gyfraniad gwaith ieuenctid at feysydd polisi eraill, ac yn ddiweddar ar gamau gweithredu penodol i geisio cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan. Ceir mwy o fanylion isod am y meysydd polisi ynghyd â chyfeiriad at sut y maent yn cydgyfeirio, er enghraifft datblygu'r gweithlu.

ADCDF

Cychwynnodd Degawd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn 2005 a daw i ben yn 2014. Ei nod yw dathlu'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni a datblygu strategaethau i gael partneriaid cenedlaethol a lleol ledled y byd i gyfrannu. Mae hefyd yn meithrin cysylltiadau â mentrau eraill y Cenhedloedd Unedig megis Nodau Datblygu'r Mileniwm, a'r Degawd Llythrennedd ac Addysg. Mae ymrwymiad y Cenhedloedd Unedig i Ddatblygu Cynaliadwy yn tanategu ac yn cadarnhau sefyllfa ADCDF yng Nghymru.

Mae'r ymrwymiad i gynaliadwyedd yng Nghymru yn ddyletswydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Roedd yn ofynnol i'r Cynulliad greu cynllun o dan adran 121 ac adolygu'r cynllun hwnnw bob pedair blynedd. Datblygwyd y cynllun cyntaf yn 2000 ac mae'n cael ei adolygu am yr eildro yn 2008.

Ers y Ddeddf, mae cynaliadwyedd wedi bod yn llinyn trwy bob polisi yng Nghymru. Mae ymagwedd y Cynulliad yn ystyried y darlun cyfan, gan gynnwys: lleihau'r galwadau ar yr amgylchedd, datblygu economaidd, cyfiawnder cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi, amrywiaeth a bioamrywiaeth, a helpu pobl Cymru i fyw bywydau iach ac annibynnol. Mae'n canolbwyntio ar ddwy egwyddor - prif-ffrydio fel bod cynaliadwyedd yn dod yn rhan o bopeth

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

a wneir, a chydweithio gan fod cynaliadwyedd yn gyfrifoldeb i bawb. Ategwyd hyn yn 'Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru' sy'n sylfaen i bolisïau a strategaethau trydydd tymor y Cynulliad.

Yn fyd-eang mae Cymru'n cyfrannu at gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm trwy'r Llywodraethau Rhanbarthol Cenedlaethol dros Ddatblygu Cynaliadwy, Dolen Cymru (Dolen Gyswllt Cymru-Lesotho), Cymru o Blaid Affrica a'r Cymunedau Seren Aur.

Lluniwyd *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007* gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac un o'i flaenoriaethau oedd addysg ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Roedd y canolbwynt ar y pryd ar addysg ffurfiol. Blaenoriaeth arall oedd uno'r panel Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a phanel Dinasyddiaeth Fyd-eang y lywodraeth er mwyn:

> *'adlewyrchu eu hategolrwydd naturiol gyda'r nod o nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer ADCDF yng Nghymru a hwyluso cymorth lleol ar bob lefel o addysg'*

Cynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu* yn 2006 ac fe'i diweddarwyd yn Ionawr 2008. Ymdrinnir â'r holl ddarparwyr addysg gan gynnwys y sector gwaith ieuenctid a cheir cyfres o argymhellion sy'n adlewyrchu'r ymagwedd darlun cyfan yn yr adran 'Meysydd trafod cyffredin':

- Ymrwymiad ac arweinyddiaeth - codi statws ADCDF i greu hinsawdd lle y gall ADCDF ffynnu
- Addysgu a dysgu - dysgwyr i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar a gweithlu addysg â sgiliau priodol
- Rheolaeth sefydliadol - ymagwedd sefydliad cyfan
- Partneriaethau - cydweithio ar draws y sector addysg
- Ymchwil a monitro - i gael gwybodaeth am sut i sicrhau dyfodol cynaliadwy
- Adnoddau a chamau atodol eraill.

At hynny, nodir camau gweithredu penodol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid o dan y penawdau hyn. Mae'r camau'n cynnwys

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

hyfforddiant, rhannu arferion, a datblygu'r datganiad Dealltwriaeth Gyffredin hwn.

Mae Sgiliau sy'n *Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth* (2008) yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio â darparwyr addysg i gyflawni'r cynllun gweithredu ADCDF.

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am yr Uned Datblygu Cynaliadwy ac am weinyddu'r panel ADCDF. Mae hyrwyddwr wedi'i benodi i hyrwyddo a chydgysylltu camau gweithredu'r cynllun.

Mae sefydliadau yng Nghymru megis Cynnal Cymru yn ceisio dylanwadu ar bolisïau ac arferion ym maes datblygu cynaliadwy. Byddant yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, yn ogystal â darparu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth, hybu arferion da a symbylu trafodaeth.

Gwaith Ieuenctid



Mae gwaith ieuenctid yn fater datganoledig yng Nghymru a'r Cynulliad sy'n gosod y cyd-destun polisi ar gyfer gwaith ieuenctid a'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru. Mae'r polisi hwn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, a phwysigrwydd partneriaethau a chydweithredu.

Yn unol â Deddf Dysgu a Medrau (2000) mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i drefnu i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid sydd ar gael *'to all young people from 11-25 who choose to access it'*.

Roedd *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru* (2000), a'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2002, yn cyflwyno ymagwedd strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru at wasanaethau cymorth ieuenctid. Roedd yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac ar gyfer sefydlu Partneriaethau Pobl Ifanc (PPI) ym mhob awdurdod lleol a fyddai'n sicrhau i bobl ifanc 11-25 oed 10 o hawliau sylfaenol. Roedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ennyn diddordeb a chynnwys pobl

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

ifanc yn y broses o adolygu a chynllunio gwasanaethau. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd cyfraniad Gwaith Ieuenctid a danategir gan y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru.

Sefydlodd *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* (2000) a'r canllawiau a gyhoeddwyd yn 2002 Bartneriaethau Plant ar gyfer plant 0-10 oed a Fframweithiau cyffredinol i gydgysylltu cynlluniau a datblygiadau ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed. Cyhoeddwyd y saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc yr un adeg.

Roedd y ddeddfwriaeth ddilynol *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau: Canllawiau ar Gydweithio Lleol o dan Ddeddf Plant 2004* (2006) yn rhoi manylion am swyddogaethau statudol newydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc 0-25 oed. Mewn rhai ardaloedd mae swyddogaethau'r PPI wedi'u hymgorffori yn y strwythurau partneriaeth hyn. Datblygodd pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc gynllun Plant a Phobl Ifanc unigol yn 2008 sy'n nodi gweledigaeth, anghenion, blaenoriaethau a chynlluniau datblygu gwasanaethau plant a phobl ifanc.

Roedd *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (2006) yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygiad y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru.



Cyhoeddwyd *Pobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid* (2007) ar ôl ymgynghori â'r maes. Roedd yn ailddatgan yr ymrwymiad i'r Gwasanaeth Ieuenctid, yn nodi prif egwyddorion a nodau gwaith ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid, ac yn datgan bwriad i ategu'r egwyddor o weithio cydgysylltiedig rhwng y sectorau. Roedd hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth.

Roedd hefyd yn cyfeirio at gyfraniad y Gwasanaeth Ieuenctid at agendâu eraill gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14-19 ac at gyfranogiad ieuenctid mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Yn 2007 cyhoeddwyd *Bod â Llais - Bod â Dewis - A ydym yn cyrraedd eich Safonau Cyfranogi?*, y Safonau Cyfranogi ar gyfer cynnwys pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bobl ifanc lais cryf mewn materion cyhoeddus trwy'r Ddraig Ffynci a Fforymau Ieuenctid Lleol. Ariennir Fforwm

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, corff ieuenctid sy'n cael ei arwain gan bobl ifanc, gan Lywodraeth y Cynulliad drwy'r Uned Datblygu Cynaliadwy. Mae'r datblygiadau hyn, sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith ieuenctid, yn cadarnhau'r syniad fod pobl ifanc yn bartneriaid mewn ADCDF.

Mae meysydd polisi eraill y Cynulliad yn cynnwys ennyn diddordeb a meithrin gweithgarwch ymysg ieuenctid trwy argymhellion Comisiwn Russell a thrwy Iaith Pawb a strategaeth ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n ceisio annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol y tu allan i'r ysgol.

Yn Ewrop mae amcanion y rhaglen Ieuenctid ar Waith yn cynnwys dinasyddiaeth weithredol, meithrin cydlyniant a dealltwriaeth gyffredin, a hybu cymorth i fudiadau a chydweithrediad Ewropeaidd. Dinasyddiaeth Ewropeaidd yw'r flaenoriaeth, a gellir cyflawni hynny drwy gyfranogi, parchu amrywiaeth ddiwylliannol, a chynnwys pobl ifanc prin eu cyfleoedd.

Tanategir egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid yn y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn gyntaf gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ac yn ail gan y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru y soniwyd amdano eisoes yn yr adran 'Diffiniadau' a'r adran 'ADCDF a 4 Colofn Gwaith Ieuenctid'. Yn unol â'r Datganiad rhaid i'r holl waith ieuenctid gynnig cyfleoedd i bobl ifanc sy'n Addysgiadol, Cyfranogol, Grymusol a Mynegiannol ac sy'n rhoi pwyslais ar gynhwysiant a chydraddoldeb mynediad. Mae'n ofynnol sicrhau hefyd fod cyfranogiad y bobl ifanc yn wirfoddol a bod y cyfleoedd yn agored i bob person ifanc 11-25 oed.

Lluniwyd y ddogfen Dealltwriaeth Gyffredin hon ar gyfer y cyrff hynny sy'n darparu gwaith ieuenctid sy'n gyson â'r egwyddorion hyn.

ADCDF a Gwaith Ieuenctid

Mae'r ddau faes polisi bellach yn nesáu at ei gilydd ac mae hynny'n bwysig am fod egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid yn hwyluso dysgu a chanlyniadau dymunol ADCDF. Yn yr un modd, gellid dweud bod dysgu a chanlyniadau dymunol ADCDF yn hwyluso egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid.

Y ddwy flaenoriaeth bellach yw nodi mwy o enghreifftiau lle mae ADCDF eisoes yn cael ei hymarfer mewn gwaith ieuenctid a

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid
Tachwedd 2008
Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

datblygu'r ymarfer hwnnw ynghyd â'r ymagwedd gwasanaeth cyfan, integredig a ddisgrifir yn Adran 7.

Blaenoriaeth arall i waith ieuenctid ac ADCDF yw datblygiad proffesiynol y gweithlu. Mae Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid wedi llunio cynllun datblygu'r gweithlu, er mwyn sicrhau bod yna weithlu hyfforddedig, medrus a chydnabyddedig yng Nghymru. Mae'n ymdrin â gweithwyr anghyflogedig a chyflogedig yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol. Y 'llwybr cydlynol o ran hyfforddiant' yw'r llwybr blaengar sydd ar gael i'r rhai sy'n awyddus i gael gyrfa mewn gwaith ieuenctid. Mae'r llwybr hwnnw'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yng ngoleuni'r Safonau Galwedigaethol newydd a datblygiadau DU gyfan eraill mewn cymwysterau, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus, a chymeradwyaeth broffesiynol.

Cyhoeddwyd *Safonau Proffesiynol Cyffredinol Newydd ar gyfer Athrawon, Hyfforddwyr a Thiwtoriaid o fewn y Sector Dysgu Gydol Oes yng Nghymru* gan Dysgu Gydol Oes y DU (Cyngor Sgiliau Sector) yn 2008 ac mae egwyddorion ADCDF wedi'u cynnwys yn yr adran ar werthoedd proffesiynol. Er bod ystod o gyrsiau hyfforddi mewn ADCDF wedi'u llunio yng Nghymru a gweddill y DU ar gyfer gweithwyr ieuenctid hyd at lefel 3 o fewn y llwybr cydlynol a thu hwnt, mae holl faes datblygiad proffesiynol mewn ADCDF yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan gynnwys gwaith ieuenctid. Y nod yw sicrhau ymagwedd fwy cydlynol a chydgysylltiedig yn y sector ieuenctid rhwng yr holl sectorau addysg. Bydd cyngor pellach ar gymhwyso'r safonau dysgu a fydd yn tanategu'r fframwaith cymwysterau ar gyfer ADCDF a gwaith ieuenctid yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Dysgu Gydol Oes y DU.

Mae ADCDF wedi'i chynnwys yn yr hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r sector gwirfoddol a'r sector statudol, a hynny o fewn a thu allan i'r llwybr cydlynol.

Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau yn cael ei ddatblygu yng Nghymru fel bod modd i bawb sy'n dysgu yn y cyfnod ôl 14, mewn unrhyw system neu leoliad, ennill credydau. Bydd hyn yn bwysig i ddatblygu'r gweithlu yn y dyfodol.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

4 ADCDF a 4 Colofn Gwaith Ieuenctid; Addysgu, Cyfranogi, Mynegi a Grymuso

"The important thing is not to stop questioning"

Albert Einstein

Fel yn achos gwaith ieuenctid da, dylai ADCDF mewn gwaith ieuenctid gychwyn gyda phrofiadau pob dydd y bobl ifanc a'r bobl ifanc ddylai benderfynu sut y bydd y dysgu'n datblygu wedyn. Fel y nodir yn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, dylai gwaith ieuenctid fod yn **addysgiadol, cyfranogol, mynegiannol** a **grymusol**. Nid yw ADCDF mewn gwaith ieuenctid yn wahanol, a'r un yw'r egwyddorion. Swyddogaeth yr ymarferydd yw adeiladu'r ymarfer ADCDF o fannau cychwyn y bobl ifanc, a'u helpu i greu cysylltiadau â themâu/cysyniadau eraill, er mwyn hwyluso cydran feirniadol ADCDF, a cheisio grymuso'r person ifanc nes ei fod yn teimlo'n abl i'w fynegi ei hun, a gweithredu.

Cyfranogi

Mae llawer o fannau cychwyn posibl i ddysgu, a bydd ADCDF yn wahanol mewn gwahanol leoliadau, gyda gwahanol grwpiau o bobl ifanc. Bydd y ffordd y gwneir materion byd-eang yn real i bobl ifanc yn dibynnu ar sgiliau'r ymarferydd. Bydd angen dod o hyd i enghreifftiau lleol i danio'r dychymyg, neu fod yn barod i ymateb i faterion a godir gan y bobl ifanc. Os bydd y bobl ifanc yn awyddus i ddewis themâu ac arwain y broses ddysgu, bydd y gwaith yn fwy perthnasol i'w bywydau ac yn fwy tebygol o ennyn eu diddordeb. Gall dysgu gan gymheiriaid fod yn arf pwerus iawn mewn ADCDF am yr un rhesymau - pobl ifanc sy'n gwybod orau sut i gyfleu'r materion i'w cymheiriaid, a bydd eu dulliau yn aml yn newydd, yn arloesol ac yn greadigol. Er bod dysgu cymaint â phosibl yn bwysig, nid dyna'r unig reswm dros ennyn diddordeb pobl ifanc mewn ADCDF mewn ffordd briodol a pherthnasol. Bydd pobl ifanc yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gwaith ieuenctid, felly os nad ydynt yn teimlo bod y profiad yn berthnasol ac yn ddiddorol ni fyddant yn dysgu a byddant yn troi eu cefnau'n gyfan gwbl.

"It is not education, but education of a certain kind that will save us"

David Orr

Addysgu

Meddwl yn feirniadol yw un o'r prif sgiliau sy'n cael eu meithrin wrth ddysgu am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. I feddwl yn feirniadol am yr hyn sydd wedi dylanwadu

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid
Tachwedd 2008
Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

ar ganfyddiadau a safbwyntiau, mae angen 'edrych allan' ar y byd o'n cwmpas (cwestiynu'r wybodaeth a gawn er enghraifft gan y cyfryngau, neu wleidyddion), a hefyd 'edrych i mewn' a myfyrio ar werthoedd ac agweddau personol. Bydd disgwyl i bobl ifanc ac ymarferwyr fel ei gilydd hunanfyfyrio'n feirniadol. Trwy'r broses ddysgu mae'n bosibl y caiff camdybiaethau eu herio, a hynny ymhlith y bobl ifanc a'r ymarferwyr gwaith ieuenctid.

Mynegi

Wrth ddysgu am ADCDF dylai pobl ifanc gael cyfle i'w mynegi eu hunain. Gallant wneud hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd, a dylid eu hannog i ddod o hyd i ffyrdd creadigol ac arloesol o fynegi meddyliau a theimladau. Mae'n bwysig nad yw pobl ifanc yn teimlo'n wan ac yn ddiymadferth o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd am y byd. Swyddogaeth yr ymarferydd yw cydweithio â phobl ifanc i'w helpu i ddychmygu byd gwell, i ddod o hyd i ffyrdd o fynegi'r safbwyntiau hyn, ac i deimlo'n ddigon grymus i gyfrannu at wneud y byd yn well.

Grymuso

Dylai ymarferwyr gofio na fydd rhai pobl ifanc, oherwydd diffyg hunan-barch a hyder, yn teimlo bod ganddynt rym dros eu bywydau eu hunain heb sôn am rym i newid y byd o'u cwmpas. Mae gweithredu (fel unigolyn, grŵp neu gymuned) yn rhan hanfodol o'r broses ddysgu ADCDF, ond bydd pawb yn gweithredu o fewn eu gallu a'u dewis eu hunain. Gellir gweithredu'n lleol, neu ar lefel ehangach, ac mae digon o ymgyrchoedd i ennyn diddordeb pobl ifanc. Dylai'r gweithredu hwn fod yn gyson â chyfranogiad pobl ifanc yn y broses o newid polisïau ac arferion y corff gwaith ieuenctid ei hun.

Cynhwysiant

Mae ymarfer cynhwysol yn tanategu 4 colofn y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid. Dyma'r sylfaen ac mae'n golygu bod *pob* person ifanc â hawl i wasanaethau ieuenctid y brif ffrwd.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Ond mewn gwirionedd, bydd rhai pobl ifanc yn cael eu hallgáu o waith ieuenctid y brif ffrwd; mae yna wahaniaethu, ac mae tuedd hefyd i'r unigolion a'r grwpiau hyn gael eu hallgáu o ADCDF mewn gwaith ieuenctid. Gall y grwpiau 'anodd eu cyrraedd' hyn, fel y'u gelwir weithiau, gynnwys rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), rhai ag anableddau dysgu neu anableddau corfforol, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, troseddwyr ifanc neu rai nad ydynt wedi llwyddo yn academaidd.

Mae'n bosibl na fydd ymarferwyr gwaith ieuenctid yn teimlo bod ADCDF yn berthnasol i'r bobl ifanc yn eu grwpiau. Efallai eu bod wedi penderfynu nad oes gan y bobl ifanc ddiddordeb, neu fod gormod yn mynd ymlaen yn eu bywydau personol i feddwl am eraill a'r byd ehangach. Efallai fod ymarferwyr a phobl ifanc yn ystyried ADCDF yn bwnc academaidd sy'n gofyn am adnoddau arbenigol, ac yn meddwl na fyddant yn ddigon hyderus wrth ddarllen ac ysgrifennu i gymryd rhan. Efallai yr ystyrir bod eu rhychwant sylw'n rhy fyr, neu fod y materion yn rhy gymhleth.

Sylwadau a aralleiriwyd:



ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Fodd bynnag, os yw ADCDF yn ddysgu hanfodol, mae gan bob person ifanc hawl i gael cyfle i ddysgu mwy am DC/DF. Byddai unrhyw allgáu yn groes i egwyddorion tanategol ADCDF, sy'n hybu hawliau i bawb, mwy o degwch wrth rannu grym, gwrthwahaniaethu, a gwaith gwrthorthrwm. Mae neilltuo, gwahaniaethu a gorthrymu yn ffenomena byd-eang, ond mae eu gwreiddiau mewn cymdeithasau lleol, a phrofiadau pob dydd. Felly, mae dull sy'n cynnwys ac yn grymuso yn gwbl gyson â hanfodion ADCDF, ac yn ychwanegu at yr hyn y gellir ei ddysgu.

Mae'n bosibl i ADCDF ffynnu mewn unrhyw leoliad gwaith ieuenctid neu amgylchedd dysgu anffurfiol. I hyn ddigwydd mae angen gwerthfawrogi cymhlethdodau pobl ifanc, ac osgoi ymatebion cyfleus a chyffredinol. Bydd rhai pobl ifanc yn cael trafferth eu gweld eu hunain yn ddinasyddion yn eu cymunedau, felly bydd angen cyflwyno dinasyddiaeth fyd-eang i bwrpas penodol a chydnabod na fydd pob person ifanc yn deall nac yn derbyn y cysyniad ar unwaith.

Os bydd person ifanc yn cael y gwaith yn anodd bydd angen dod o hyd i ddulliau gwahanol. Cyfrifoldeb yr ymarferydd yw addasu ei dechneg ar gyfer anghenion yr unigolyn neu'r grŵp. Dyna fantais dulliau cyfranogol a dysgu gan gymheiriaid - mae pobl ifanc yn gwybod sut i wneud y dysgu'n berthnasol i'w bywydau ac yn ddiddorol i'w cymheiriaid.

Er bod ADCDF yn ymdrin â materion a syniadau cysyniadol cymhleth, mae'n bosibl ennyn diddordeb dysgwyr mewn ffyrdd syml, ond heb or-symleiddio. Ceir enghreifftiau niferus o waith arloesol a chreadigol sydd wedi tanio dychymyg pobl ifanc ac ymarferwyr fel ei gilydd. Bydd cymorth i ymarferwyr gwaith ieuenctid a syniadau penodol ar gyfer ennyn diddordeb pob math o ddysgwyr ar gael yn y 'Pecyn Cymorth ADCDF mewn Gwaith Ieuenctid'.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

5 Themâu a Chysyniadau ADCDF

"'Would you tell me please which way I ought to go from here?'

'That depends very much on where you want to get to.'

'I don't care where…'

'Then it doesn't matter which way you go.'"

Dyfyniad o Alice in Wonderland

Mae ADCDF yn fwy na chorff o wybodaeth: ethos ydyw a ddylai dreiddio trwy fywyd corff neu wasanaeth. O'i hymgorffori, agwedd i'w mabwysiadu, cyfres o werthoedd, a ffordd o fyw ydyw.

Yn yr adran ddiwethaf ar 'ADCDF a 4 Colofn Gwaith Ieuenctid' disgrifiwyd ymagwedd, ond beth yw cynnwys ADCDF mewn gwaith ieuenctid?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio amlygu ehangder ADCDF. Ym 1998 datblygwyd y '9 Cysyniad Allweddol', a rhoddodd y rhain Banel Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Gweithgor Dinasyddiaeth Fyd-eang Llywodraeth y Cynulliad a oedd newydd uno (y Panel ADCDF yn ddiweddarach) ar ben y ffordd. Yna yn 2007 datblygwyd y '7 Thema' gan Banel ADCDF y Llywodraeth i roi cyfarwyddyd i'r sector ysgolion i gychwyn.

Cysyniadau	Themâu
1. Ansawdd bywyd	1. Hunaniaeth a diwylliant
2. Newid cynaliadwy	2. Dewisiadau a phenderfyniadau
3. Amrywiaeth	3. Iechyd
4. Cyd-ddibyniaeth	4. Yr amgylchedd naturiol
5. Dinasyddiaeth a stiwardiaeth	5. Defnydd a gwastraff
6. Datrys anghydfodau	6. Newid yn yr hinsawdd
7. Anghenion a hawliau	7. Cyfoeth a thlodi
8. Gwerthoedd a chanfyddiadau	
9. Ansicrwydd a rhagofalon	

"Our biggest challenge in this new century is to take an idea that seems abstract - sustainable development - and turn it into a reality"

Kofi Annan

Mae'n bosibl ar y cychwyn y bydd themâu yn fwy diriaethol i ddysgwyr ac yn haws eu hamgyffred. Wrth i'w dysgu ddatblygu, mae'n bosibl y bydd rhai yn gweld bod cysyniadau'n llai cyfarwyddol ac yn cynnig cyfle i feddwl yn fwy creadigol. Nid yw'r themâu na'r cysyniadau'n derfynol nac yn gyflawn, a gall y naill a'r llall fod yn arf i'r ymarferydd os ceir bod un yn fwy defnyddiol na'r llall. Yn y naill achos a'r llall bydd angen i ymarferwyr addasu dros amser gan fod ein dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn newid o hyd.

Mae'n bwysig i ymarferwyr gwaith ieuenctid gydnabod bod themâu neu gysyniadau a luniwyd yn allanol yn groes i ddull dysgu anffurfiol. Fodd bynnag, gellir eu defnyddio i fonitro cynnydd ac yn syniadau ar gyfer datblygu. Mae gosod rhagangenrheidiau yn anghydnaws â gwaith ieuenctid da, a gall fygu creadigrwydd a digymhellrwydd. Mae angen canolbwyntio ar bethau cyfoes ac ymateb iddynt.

Dylai dysgwyr gael cyfle i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch eu dysgu, ac os cânt gyfle fe wnaiff pobl ifanc gychwyn ac arwain gwaith ADCDF. Cynhyrchwyd y canlynol gan 90 o bobl ifanc, pob un yn gynrychiolydd Draig Ffynci 11-25 oed, mewn dau weithdy. Mae'n enghraifft o safbwynt person ifanc ar ADCDF, ac mae'n ddiddorol cymharu themâu a chysyniadau'r bobl ifanc â'r rhai a gynhyrchwyd gan oedolion.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Y Materion Pwysicaf sy'n Wynebu'r Byd a'i Drigolion - Safbwynt Person Ifanc

- Llygredd (crybwyllwyd 5 gwaith)
- AIDS
- Tlodi byd-eang - gan gynnwys 'tlodi anweladwy' (crybwyllwyd 9 gwaith)
- Gorlenwi / gorboblogi
- Cynhesu byd-eang (crybwyllwyd 9 gwaith)
- Cynefinoedd naturiol yn cael eu difetha i dyfu planhigion a phori anifeiliaid (crybwyllwyd 3 gwaith) / Difodiant planhigion ac anifeiliaid / Mynediad at adnoddau glân i anifeiliaid a phobl / Disbyddu adnoddau naturiol / gollyngiadau olew
- Newid yn yr hinsawdd (crybwyllwyd 2 waith) / Mwy o drychinebau naturiol
- Iechyd / Diffyg gweithredu ar glefydau y gellir eu gwella / atal
- Datgoedwigo (crybwyllwyd 2 waith)
- Prisiau olew (crybwyllwyd 4 gwaith) / Costau tanwydd / Pwysigrwydd olew i economi gwledydd
- Effaith prisiau olew ar brisiau bwyd ac effaith tyfu biodanwyddau
- Chwyddiant / economi / y wasgfa gredyd
- Newid ffordd o fyw / Dihidrwydd / Diofalwch pobl
- Lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu (crybwyllwyd 2 waith)
- Globaleiddio
- Prinder swyddi ar gyfer nyrsys sydd newydd raddio yng Nghymru
- Rhyfel (crybwyllwyd 8 gwaith) / Rhyfel niwclear / ffrwydrad yn benodol / datgymalu arfau niwclear (crybwyllwyd 3 gwaith)
- Gorthrwm / hil-laddiad
- Trais
- Terfysgaeth (crybwyllwyd 3 gwaith)
- Rhagfarn
- Crefydd
- Hiliaeth (crybwyllwyd 2 waith)

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Y Materion Pwysicaf sy'n Wynebu'r Byd a'i Drigolion - Safbwynt Person Ifanc

- Rhoi organau (i fod yn orfodol oni bai fod hynny'n groes i gred a/neu grefydd person)
- Ymfudo a senoffobia
- Crac (cyffuriau)
- Torcyfraith (crybwyllwyd 2 waith) / Fandaliaeth
- Hawliau sifil
- Annibyniaeth

Mae'r themâu a'r cysyniadau fel darnau jig-so y gellir eu trefnu'n ddarlun, ond yn wahanol i jig-so arferol gellir eu trefnu mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bydd y mannau cychwyn yn amrywio, ond yn y pen draw bydd y darlun yn cynnwys holl themâu a chysyniadau cydgysylltiedig a chyd-ddibynnol ADCDF. Nid yw'r themâu a'r cysyniadau niferus sy'n bosibl mewn ADCDF yn annibynnol ar ei gilydd, maent i gyd yn gydgysylltiedig, a bydd y cydgysylltiadau hyn yn cynnig cyfle i feddwl yn feirniadol.

Isod ceir rhai enghreifftiau o'r cysylltiadau a grëwyd gan gynrychiolwyr ifanc y Ddraig Ffynci rhwng y materion a nodwyd ganddynt (ar y dudalen ddiwethaf).

- Hiliaeth → Terfysgaeth - mae cysylltiad rhyngddynt bob tro
- Terfysgaeth → Rhagfarn - ym marn terfysgwyr mae'r rhai y maent yn eu casáu i gyd yr un fath
- Rhagfarn → Trais - bydd cwerylon yn arwain at drais, a llawer o ddicter yn arwain at ymladd
- Trais → Rhyfel - gall ymladd arwain at ryfeloedd, a gall y rheswm am yr ymladd fod yn gysylltiedig â chrefydd
- Rhyfel → Rhyfel niwclear - gall rhyfel arwain at ddefnyddio arfau niwclear / aethpwyd i ryfel yn Irác am fod rhai yn tybio bod gan y wlad honno arfau niwclear
- Rhyfel niwclear → Llygredd - oherwydd effaith aruthrol ffrwydrad niwclear - llwch ymbelydrol / cysylltiad â chynhesu byd-eang
- Llygredd → Cynefinoedd naturiol - gall llygredd yn yr aer, dŵr etc ddifetha cynefinoedd naturiol
- Cynefinoedd naturiol → Y wasgfa gredyd - mae cysylltiad rhwng cynefinoedd naturiol ac adeiladu tai ac felly arian - tai nad yw pobl yn gallu eu fforddio
- Y wasgfa gredyd → Olew - mae pris olew yn codi, felly mae'n rhaid i bobl dalu mwy a bydd hyn yn arwain at ddyled
- Olew → Tlodi - mae cost uchel olew yn effeithio ar bopeth yn y wlad, mae pris popeth yn codi a bydd hynny'n effeithio ar bobl ar incymau isel

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

- Tlodi → Newid yn yr hinsawdd - ni all ffermwyr dyfu cnydau - dim digon o law
- Newid yn yr hinsawdd → Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu - os gwnâi pawb y 3 pheth yma byddai llai o newid yn yr hinsawdd
- Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu → Yr amgylchedd - caiff yr amgylchedd ei niweidio os gwrthodwn wneud y 3 pheth yma
- Yr amgylchedd → AIDS - os oes problemau amgylcheddol bydd pobl yn rhoi mwy o sylw i hynny nag i ddiogelu eu hunain mewn cyfathrach rywiol! Os na fydd rwber ar ôl ni fyddwn yn gallu gwneud condomau!

Gellir dechrau'n lleol, a chwilio am y cysylltiadau byd-eang, neu ddechrau'n fyd-eang, a chwilio am y cysylltiadau lleol. I gynnal arferion da, mae'n hanfodol taro ar hyn sydd o ddiddordeb neu o bwys i'r bobl ifanc. Mae ymchwilio i'r cydgysylltiadau rhwng materion yn rhan hanfodol o'r broses o feddwl yn feirniadol, a bydd angen i'r ymarferydd feddwl yn greadigol am hyn a bod yn hyblyg o ran datblygiad y dysgu. Yna bydd angen i'r bobl ifanc deimlo'n ddigon grymus i weithredu. Yn olaf, gellir mesur cynnydd gan ddefnyddio trafodaethau neu weithgareddau cychwynnol yn sylfaen; gellir edrych yn ôl ar y rhain bob hyn a hyn a mesur hyd y siwrnai.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Cychwyn gyda bywydau pob dydd pobl ifanc	Y cysylltiad byd-eang	Y dull 4 Colofn - Addysgu, Cyfranogi, Grymuso a Mynegi
Cerddoriaeth	Tarddiad cerddoriaeth boblogaidd yr oes. Hanes cerddoriaeth ledled y byd a'r modd y'i defnyddiwyd gan rai i wrthdystio. Ymlediad tueddiadau cerddorol i bob rhan o'r byd. Y diwydiant cerddoriaeth byd-eang.	Dysgu drwy ymchwilio ar y we. Dod o hyd i gerddoriaeth o rywle arall yn y byd. Gellid ymgynghori ag eraill yn y prosiect. Gallai grymuso / mynegi gynnwys creu cerddoriaeth / ysgrifennu cân am faterion lleol.
Chwaraeon	Y farchnad athletwyr fyd-eang. Y Gemau Olympaidd - creu heddwch neu helynt?	Ymateb i newyddion y dydd - pa chwaraeon sy'n destun trafod ar hyn o bryd? Ymchwilio i gyflog athletwyr - a yw'n deg?
Cyffuriau	Ble mae cyffuriau'n cael eu tyfu? Pam yn y lleoedd hyn? Sut mae prisiau tanwydd uwch, er enghraifft, yn effeithio ar y diwydiant cyffuriau anghyfreithlon?	Dilyn trywydd cyffur ar strydoedd y DU. Gall fod yn gyfreithlon, ee tybaco, neu'n anghyfreithlon, ee cocên neu heroin. Ar bwy y mae wedi effeithio a sut? A yw barn neu safbwynt y bobl ifanc wedi newid?

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Cychwyn gyda bywydau pob dydd pobl ifanc	Y cysylltiad byd-eang	Y dull 4 Colofn - Addysgu, Cyfranogi, Grymuso a Mynegi
Delwedd a dillad	Beth mae bod yn brydferth yn ei olygu? Ai'r un peth yw 'prydferthwch' ym mhob rhan o'r byd? Beth yw'r gwahaniaethau a pham? Pwy sy'n penderfynu beth sy'n ffasiynol? Pwy sy'n gwneud ein dillad? A oes ots gennym am eu hamodau gwaith?	Gellid cychwyn drwy gynnal trafodaeth anffurfiol am ffasiwn. Ymwybyddiaeth o ddelwedd - anhwylderau bwyta. Cyfeirio at sefydliadau sy'n cynnig cymorth. Syniadau gwahanol am brydferthwch.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

"Cyfrifoldeb i helpu dysgwyr i ddeall bod cysylltiad anorfod rhwng eu tynged a bywydau a phenderfyniadau eraill ledled y byd a bod pawb yn gallu helpu i ddatrys anghydfodau a llunio'r dyfodol"

APADGOS 2008

"By the time you have finished your breakfast you will have depended on half of the world"

Martin Luther King

Enghraifft o gysylltiad y materion a awgrymwyd gan y bobl ifanc â'r themâu



Gellir defnyddio pob un o'r materion hyn yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth neu waith gyda phobl ifanc. Er bod y mater a ddewisir yn perthyn i thema benodol, mae'n bwysig creu cysylltiadau â themâu eraill er mwyn cynyddu dealltwriaeth y bobl ifanc o'r mater a llwyr feistroli ADCDF.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid
Tachwedd 2008
Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Enghraifft o sut y gall mater cychwynnol gydblethu â'r themâu



Yr hyn sy'n bwysig am y dull hwn yw:

- Fod y mater cychwynnol yn cael ei ddatblygu gyda'r bobl ifanc
- Bod cysylltiadau'n cael eu creu â themâu eraill fel y bo'n briodol
- Cofio na fydd yn bosibl, nac yn briodol, creu cysylltiadau â phob thema bob tro

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o holl fanteision addysgol ADCDF i bobl ifanc, ac yn glir ynghylch yr effaith y gall ADCDF ei chael ar ddysgwyr. Bydd cydnabod yr hyn a ddysgwyd a mesur cynnydd yn helpu pobl ifanc i werthfawrogi hyd a lled eu datblygiad, a bydd hynny'n eu cymell hwy a'r gweithwyr ieuenctid ymhellach. Bydd cynnydd yn codi ysbryd ac yn gwella ymrwymiad.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

6 Cynnydd, Cydnabyddiaeth a Mesur Effaith

"Education is the most powerful weapon you can use to change the world"

Nelson Mandela

Ni ddylid cyflwyno ADCDF ar wahân i weithgareddau dysgu craidd. Cofier nad pwnc neu fater ar wahân mohoni, ond dimensiwn ychwanegol i'r hyn sydd eisoes yn greiddiol i ymarfer gwaith ieuenctid. Mae'r broses yr un mor bwysig mewn ADCDF â'r canlyniad, a chan fod y profiadau dysgu yn aml yn cael eu rhannu, rhaid cydnabod dysgu'r grŵp yn ogystal â rôl ddylanwadol cymheiriaid. Fel yr awgrymir yn yr adran nesaf ar ymagwedd gwasanaeth cyfan, integredig, ni ellir mesur effaith yn ôl dysgu'r bobl ifanc yn unig. Bydd newidiadau i'w gweld drwy'r corff cyfan, a bydd angen mesur eu heffaith.

Er bod y themâu a'r cysyniadau yn ymgais i amlygu hyd a lled ADCDF, nid oes raid i ymarferwyr roi sylw i bopeth, ac nid oes disgwyl i bobl ifanc ddysgu'r cyfan ar unwaith. Y nod yw lleoli'r ymarfer a'r dysgu yn narlun cyfan ADCDF, ac os yw'n briodol, dod o hyd i feysydd eraill i'w datblygu. Bydd angen i bob ymarferydd a pherson ifanc ganfod eu man cychwyn priodol eu hunain, a gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn ganllaw defnyddiol iddynt.



Mae dilyniant yn y Gwasanaeth Ieuenctid yn wahanol i ddilyniant mewn addysg ffurfiol. Mewn addysg ffurfiol ceir cyfnodau allweddol sy'n seiliedig ar oedran, ac mae gan bob cyfnod allweddol ei gwricwlwm a'i ganlyniadau ei hun. Yn y Gwasanaeth Ieuenctid mae'n bosibl camu ymlaen, ond bydd angen i'r ymarferydd gwaith ieuenctid a'r person ifanc gytuno pryd a sut i wneud hynny. Bydd rhaid iddynt benderfynu hefyd pa mor ddwfn y maent am fynd ac a ydynt am gael cydnabyddiaeth am eu cyflawniadau.

Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn cydnabod cyflawniadau pobl ifanc mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys Gwobr Dug Caeredin, tystysgrifau, cofnodion o gyrhaeddiad ac achrediadau ffurfiol, gan gynnwys Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN) a'r Gwobrau Cyrhaeddiad Ieuenctid. Mae'r Geidiau a'r Sgowtiaid hefyd yn enghreifftiau o raglenni ieuenctid sy'n mesur cynnydd yn fwy ffurfiol.

Mae'r gweithgareddau a'r dysgu sy'n digwydd yng nghyd-destun ADCDF wedi'u cynnwys a'u cydnabod yn llawer o systemau gwobrwyo cyffredinol cyfredol y Gwasanaeth Ieuenctid. Maent yn hyblyg ac yn dibynnu ar ddiddordebau'r person ifanc a bydd y

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

person ifanc yn dewis cymryd rhan ynddynt. Mae cyrsiau hyfforddi mewn ADCDF hefyd wedi'u llunio ar gyfer pobl ifanc ac fe'u hachredir drwy'r OCN at lefel 1.

Mae'r Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol yn Lloegr wedi cysylltu rhai o'r gwobrau cyffredinol â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol o lefel mynediad hyd at lefel 3 yn y *'National Framework of Awards in Non-Formal Education Settings'* (Ebrill 2007). Mae dilyniant yn y rhain.

Mae'n bosibl i'r holl wobrau a phrofiadau eraill gyfrannu at Fagloriaeth Cymru neu Lwybrau Dysgu 14-19. Mae hynny'n beth da i'r bobl ifanc ac yn ffordd o fesur cynnydd gan fod modd eu cysylltu â lefelau. Gellid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i ADCDF a darparu mwy o dystiolaeth o lefelau naill ai drwy ddefnyddio mwy ar y Gwobrau cyfredol neu drwy'r llwybr FfCChC pan fydd yn barod, a phan fydd disgrifiadau lefel yn cael eu cymhwyso'n well yn ymarferol.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y 'Pecyn Cymorth ar gyfer ADCDF mewn Gwaith Ieuenctid'.



Mesur a Gwerthuso

Yn ôl y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Genedlaethol dylai canlyniadau gwaith ieuenctid i bobl ifanc gynnwys cyfranogi gweithredol, meithrin mwy o sgiliau, a gwell cymhwysedd emosiynol. Mae'r canlyniadau hyn i gyd hefyd yn ganlyniadau dymunol ADCDF, ac yn helpu pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol. Bydd nifer o gyd-destunau gwaith ieuenctid yn mesur canlyniadau a hefyd yn galluogi pobl ifanc i rannu eu profiadau lleol a byd-eang â'r gymuned ehangach.

Rhoddir cryn bwyslais ar ganlyniadau a mesur canlyniadau yn y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid. I gynyddu dealltwriaeth o'r modd y gall ymyriad gwaith ieuenctid arwain at y canlyniadau hyn, mae mentrau'n cael eu datblygu i ddarparu offerynnau a dulliau ychwanegol ar gyfer nodi a mesur canlyniadau i bobl ifanc, ac i nodi arferion effeithiol a manteision i'r gymuned ehangach.

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn arolygu gwasanaethau cymorth ieuenctid gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin. Cynhwyswyd ADCDF yng nghanllawiau diwygiedig 2007 ar Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. Cyfeirir yn benodol at ADCDF yn Adran 3.11 *'a yw'r profiadau dysgu'n hyrwyddo addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy'* ac mae adrannau eraill yn tanategu egwyddorion eraill megis cynhwysiant a chwalu stereoteipiau. Mae disgwyl i gyrff a phartneriaethau gynnwys ADCDF yn eu hymarferion hunanarfarnu. Mae disgwyl i gyrff gwaith ieuenctid a phartneriaid eraill yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid gynnwys ADCDF yn eu rhaglenni i bobl ifanc, gan bennu'r canlyniadau, a chynnwys y rhain yn eu hadroddiadau hunanarfarnu.

At hynny, mae Estyn wedi ymchwilio i'r ADCDF sy'n cael ei darparu mewn ysgolion ac yn y gwasanaethau cymorth ieuenctid. O ganlyniad i'r ymchwil, cyhoeddwyd canllawiau manwl ar gyfer ysgolion, athrawon, hyfforddwyr ac athrawon newydd, gan sicrhau bod ADCDF yn cael ei phrif-ffrydio ar draws yr holl feysydd cwricwlwm. Cyhoeddodd Estyn argymhellion ar gyfer prif randdeiliaid y Gwasanaeth Ieuenctid a Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym mis Awst 2008, ac maent yn cynnwys y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a rhanddeiliaid eraill.

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

7 Ymagwedd Gwasanaeth Cyfan, Integredig at ADCDF

"Mae llawer o staff ar bob lefel yn ymwneud â mentrau ADCDF. Fodd bynnag, ffactor allweddol yn llwyddiant ADCDF yw ymrwymiad uwch reolwyr. Mae'r ymrwymiad hwn yn arbennig o bwysig er mwyn torri rhwystrau sefydliadol mewnol ac allanol i lawr a phwysleisio'r pwysigrwydd strategol i'r holl staff"

Estyn, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru, Awst 2008

Mae ymagwedd darlun cyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd yn ganiataol fod ADCDF yn rhan o'r brif ffrwd, a bod gweithredu egwyddorion ADCDF yn gyfrifoldeb i holl aelodau corff. Er bod y maes addysgu a dysgu'n hanfodol, fel y nodir yn 'Meysydd Trafod Cyffredin' ar dudalen 7 yn y Cynllun Gweithredu Strategol, mae'n bwysig hefyd fod rheolwyr, athrawon, pobl ifanc, y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a rhanddeiliaid eraill yn y gymuned ehangach yn mabwysiadu'r ymagwedd Gwasanaeth Ieuenctid Integredig cyfan, ac yn rhoi'r hyn a addysgir ar waith.

Mae sefyllfa'r bobl ifanc a'r hyn y gallant ei gyflawni drwy fod yn un o'r partneriaid allweddol yn dra phwysig. Trwy gymhwyso'r egwyddorion a'r arferion sy'n gysylltiedig â chyfranogiad ieuenctid, gall pobl ifanc ddylanwadu ar bob agwedd ar yr ymagwedd Gwasanaeth Ieuenctid Integredig cyfan.

"It is no good trying to cope with the conditions of the 21st Century with the thinking and practices of the 20th"

E Lazlo

I gychwyn, mae'r diagram canlynol o ADCDF yng nghyd-destun gwaith ieuenctid yn crynhoi ac yn dangos y berthynas rhwng ADCDF, pobl ifanc a'r ymagwedd gwasanaeth cyfan, integredig. Gall rheolwyr ac ymarferwyr gwaith ieuenctid ei ddefnyddio i weld ar gip leoliad yr ymagwedd Gwasanaeth Ieuenctid cyfan o fewn corff a'r meysydd i'w hystyried.

Yna, trafodir y materion hyn ymhellach yn y siart drwy gysylltu'r 'meysydd trafod cyffredin' â'r blaenoriaethau hyn er mwyn dangos bod gan bawb gyfrifoldeb i gymryd rhan a chyflawni'r canlyniadau dymunol. Nodir y manteision uniongyrchol i bobl

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid
Tachwedd 2008
Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

"If something is sustainable it means we can go on doing it indefinitely, if it isn't we can't"

Jonathan Porritt

ifanc, gweithwyr y gwasanaeth ieuenctid, y gymuned ehangach a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag ambell her ac enghraifft. Nid yw'r rhain yn gyflawn ond maent yn amlygu manteision a chwmpas yr ymagwedd corff cyfan.

Ymagwedd Gwasanaeth Ieuenctid Cyfan at ADCDF



ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Maes Trafod Cyffredin: Ymrwymiad ac Arweinyddiaeth

Ystyr

Ymateb cadarnhaol a gwybodus aelodau'r corff a'r rheolwyr i sicrhau datblygu cynaliadwy ym mhob agwedd ar y Gwasanaeth Ieuenctid gan gynnwys rheolaeth strategol o'r gweithlu, hyfforddiant, datblygu polisïau a chanllawiau, ymgynghori â phobl ifanc, adeiladau, adnoddau, a hwyluso'r gwaith a gyflawnir gyda phobl ifanc. Dylai rôl pobl ifanc fod yn gyson ag egwyddorion cyfranogiad ieuenctid

Enghraifft: Yn Rhondda Cynon Taf defnyddir y DVD a gynhyrchwyd gan Ganolfan Ieuenctid Bodringallt ar sbwriel a gwastraff i ledaenu arferion da ac i adeiladu ar y gwaith o integreiddio ADCDF trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid

Manteision

Pawb yn cydweithio i gyflawni'r weledigaeth o gynaliadwyedd a'r bobl ifanc yn gweld y manteision sy'n deillio o roi eu syniadau ar waith

Heriau

Cyflawni'r weledigaeth a sicrhau amser, adnoddau a sgiliau'r rhanddeiliaid i gyflawni'r canlyniadau

ADCDF yng Nghyd-destun Gwaith Ieuenctid

Ymrwymiad y Corff ac Ymagwedd Tîm Rheoli Cyfan

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Maes Trafod Cyffredin: Addysgu a Dysgu

Ystyr

Caiff ADCDF ei chyflwyno trwy egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid, trwy berthynas y gweithwyr â phobl ifanc a thrwy gyfranogiad pobl ifanc yn y gymdeithas ehangach er mwyn bod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol

Mae hyn yn berthnasol i'r Gwasanaeth Ieuenctid ac eraill, gall fod yn ddarn o waith digymell neu yn rhan o raglenni cyfredol megis bathodynnau a gwobrau yn y sector gwirfoddol

Enghraifft: Mae llawer o weithwyr ieuenctid yng Nhonwy yn cyflwyno ADCDF i raglenni sydd eisoes yn rhedeg mewn clybiau ieuenctid megis 'Coginio Masnach Deg' neu 'ailgylchu papur'

Enghraifft: Darperir hyfforddiant datblygu proffesiynol sy'n cynnwys ADCDF mewn gwaith ieuenctid. Mae hyfforddiant ar gael a gellir ei achredu trwy'r OCN at lefelau 2 a 3. Yn 2007-2008 aeth dros 100 o ymarferwyr gwaith ieuenctid o bob rhan o Gymru ar gyrsiau hyfforddi undydd allanol ar ADCDF mewn gwaith ieuenctid

Gall pobl ifanc gael cydnabyddiaeth am eu gwaith ym maes ADCDF trwy wobrau cyffredinol a phrosiectau mwy penodol ar ADCDF

Enghraifft: Mae gweithwyr ieuenctid yng ngwasanaeth ieuenctid Castell-nedd a Phort Talbot wedi bod wrthi'n codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o effaith amgylcheddol beicio oddi ar y ffordd ac maent hefyd wedi dod o hyd i le diogel iddynt feicio a chael llai o effaith. Cynhaliwyd y cwrs, sydd wedi'i achredu ar lefel 2 OCN, dros gyfnod o 12 wythnos ac ymdriniwyd â phob agwedd ar feicio oddi ar y ffordd gan gynnwys cynnal a chadw beiciau ac effeithiau amgylcheddol

Manteision

Bydd pobl ifanc yn dysgu ac yn meithrin sgiliau, a chânt eu grymuso. Byddant yn chwarae rhan weithredol a chaiff eu syniadau eu gweithredu. Yn y tymor hir, bydd pobl ifanc yn gallu dylanwadu ar rannau eraill o'u bywydau wrth i sefyllfaoedd godi, gan gynnwys addysg ffurfiol a datblygu gyrfa

Bydd gan yr holl weithwyr ieuenctid a rheolwyr y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i roi ADCDF ar waith ar draws y corff cyfan ac yn eu gwaith gyda phobl ifanc

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Heriau

Prif-ffrydio neu ymgorffori ADCDF yn rhaglenni a gweithgareddau'r corff

Meithrin sgiliau gweithwyr a lledaenu arferion effeithiol

Cydgysylltu'r gwaith o addasu hyfforddiant cyfredol ac integreiddio â hyfforddiant gwaith ieuenctid a chynllun gweithredu datblygu'r gweithlu

Integreiddio â mentrau eraill sy'n cael eu datblygu i gydnabod cyfraniad pobl ifanc megis FfCChC

ADCDF yng Nghyd-destun Gwaith Ieuenctid

Pobl ifanc, eu hawliau a'u cyfrifoldebau

Pobl Ifanc yn Cyfranogi ac yn cael eu Grymuso: Gweithredu Cymdeithasol, Gwirfoddoli, Addysg Cymheiriaid, Eiriolwyr

Datblygiad Proffesiynol ar gyfer y gweithlu rheng flaen a rheolwyr

Cydnabod datblygiad pobl ifanc

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Maes Trafod Cyffredin: Rheolaeth Sefydliadol

Ystyr

Ymateb y corff a'i reolwyr i gyflawni'r nodau a bennwyd ym mhob agwedd ar y Gwasanaeth Ieuenctid trwy reolaeth strategol. Dylai pobl ifanc chwarae rhan yn y broses o nodi camau i'w cymryd, a dylent gael cyfle i gynnig syniadau, ee prynu nwyddau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd neu nwyddau masnach deg, defnyddio technoleg integredig i leihau costau teithio

Enghraifft: Mewn rhai awdurdodau lleol, mae gweithredwyr wedi penderfynu penodi gweithiwr i fod yn gyfrifol am hybu ADCDF o fewn yr awdurdod. Mae rheolwyr rhai Gwasanaethau Ieuenctid hefyd wedi penderfynu rhoi cyfrifoldeb i un o'u staff am gydgysylltu ADCDF ac ymateb i ymholiadau

Enghraifft: Bydd prosiect ieuenctid yn Abertawe yn gwerthu cynhyrchion masnach deg yn y bar coffi am yr un pris â chynhyrchion eraill

Manteision

Bydd yr holl randdeiliaid yn gweld pwysigrwydd ADCDF a bydd hynny'n arwain at fanteision ychwanegol gan gynnwys sicrhau cyllid neu noddwyr

Gall cyrff gael eu hystyried yn enghreifftiau o arferion da yn arbennig o ran sicrhau cyfranogiad pobl ifanc

Heriau

Nid ystyrir ennyn diddordeb pobl ifanc mewn ADCDF yn gyfrifoldeb i bob gweithiwr

Sicrhau bod pawb yn cytuno â'r weledigaeth ac nad oes angen adnoddau ychwanegol

ADCDF yng Nghyd-destun Gwaith Ieuenctid

Ymrwymiad y Corff ac Ymagwedd y Tîm Rheoli Cyfan

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Maes Trafod Cyffredin: Partneriaethau

Ystyr

Mae angen i randdeiliaid gydweithio i weithredu ADCDF yn strategol ac yn eu hymarfer, gan gynnwys hyrwyddo gwaith rhyngwladol, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu

Dylai partneriaethau adlewyrchu ADCDF a defnyddio'r ymagwedd corff cyfan yn eu cynlluniau unigol

Gall ADCDF yn y gwahanol sectorau addysg ymblethu er mwyn i bobl ifanc gael cydnabyddiaeth am eu cyfraniad

Gall cymunedau nodi cyfraniad pobl ifanc a chymryd rhan yn eu mentrau

Enghraifft: Mae Cymorth Cristnogol, Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy a Gwerin y Coed wedi bod yn cydweithio ar brosiect addysg cymheiriaid HIV/AIDS

Enghraifft: Datblygodd Fforwm Ieuenctid Caerffili daflen ffeithiau ar gyfer pobl ifanc 'Take 5 to save the Earth' gyda chymorth sefydliadau eraill y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Dosbarthwyd y daflen mewn ysgolion a chymunedau yn yr ardal honno

Enghraifft: Mae Rhwydwaith Gwirfoddol Pobl Dduon Caerdydd wedi sefydlu prosiect gydag arian o'r Cynulliad i gael pobl ifanc o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ymchwilio i faterion sy'n berthnasol iddynt, megis diwylliant a chyflogaeth. Y bobl ifanc sy'n rheoli'r prosiect ac maent wedi cynnal cynhadledd ar gyfer rheolwyr banciau i drafod y ffactorau sy'n atal pobl ifanc o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig rhag cael swyddi yn y sector, gan gynnwys hiliaeth a rhagfarn

Manteision

Caiff pobl ifanc gydnabyddiaeth am eu cyfraniad pwysig, ac am fod yn esiamplau y gall eraill eu dilyn

Bydd yr holl randdeiliaid a'r gymuned ehangach yn meddwl mewn ffordd gynaliadwy ac yn cynnwys y syniadau yn eu cynlluniau, ac wrth ddatblygu'r gymuned ac ymgysylltu â dinasyddion. Caiff syniadau o rannau eraill o'r byd eu rhannu a'u gweithredu

Heriau

Cael pawb i ymrwymo i'r weledigaeth a sicrhau eu bod i gyd, er gwaethaf eu blaenoriaethau a'u diddordebau gwahanol, yn gwybod sut i gyfrannu

ADCDF yng Nghyd-destun Gwaith Ieuenctid

Ceir cysylltiad â'r byd ehangach, cymunedau lleol, ysgolion, Addysg Bellach (AB), Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Llwybrau Dysgu 14-19 ac Addysg Oedolion yn y Gymuned

Maes Trafod Cyffredin: Ymchwil a Monitro

Ystyr

Mae'n cynnwys ymchwil, nodi a rhannu arferion da, cofnodi canlyniadau ADCDF, defnyddio Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn a hunanarfarnu

Enghraifft: Ymchwiliodd Cyfanfyd i ddatblygiadau a gweithgareddau mewn cyrff ieuenctid ledled Cymru cyn mynd ati i greu canllaw arfer da

Manteision

Dealltwriaeth o sut a pham y mae cyflwyno ADCDF yn fuddiol i bawb, ee mae'n cyfoethogi bywydau pobl ifanc a chymunedau ehangach

Canfod arferion da gan ddefnyddio meini prawf dealladwy y cytunwyd arnynt

Heriau

Blaenoriaethu adnoddau er mwyn cynnal ymchwil

Hyfforddiant ar fesur canlyniadau a thechnegau gwerthuso

ADCDF yng Nghyd-destun Gwaith Ieuenctid

Canlyniadau ac Effaith - Pobl ifanc, Gweithwyr Ieuenctid a Chymunedau

ADCDF: Dealltwriaeth Gyffredin ar gyfer y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth Rhif: 068/2008

Maes Trafod Cyffredin: Adnoddau

Ystyr

Nodi'r adnoddau gofynnol ac unrhyw faterion priodol eraill sydd angen sylw. Rhannu adnoddau'n briodol a rhwydweithio

Enghraifft: Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymgynghori ar feini prawf asedau nas hawliwyd, gan gynnwys eu dosbarthu ymysg prosiectau sector gwirfoddol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yn 'Implementing a dormant accounts scheme in Wales: a consultation', Awst 2008

Manteision

Efallai na fydd angen adnoddau ychwanegol ac y gellir arbed adnoddau drwy eu defnyddio'n fwy effeithlon

Heriau

Efallai y bydd angen i gyrff newid rhai o'u blaenoriaethau

ADCDF yng Nghyd-destun Gwaith Ieuenctid

Llyfrgell Parc Cathays a'r amrywiaeth o adnoddau sydd gan randdeiliaid

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Rhestr Termau

ADCDF	Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
Cyfanfyd	Corff aelodaeth cenedlaethol sy'n hyrwyddo ADCDF
OCN	Rhwydwaith y Coleg Agored
FfCChC	Fframwaith Cwricwlwm a Chymwysterau Cymru
PPI	Partneriaeth Pobl Ifanc
Estyn	Arolygiaeth Addysg Cymru

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

Cyfeiriadau

- Llywodraeth y DU - Deddf Dysgu a Medrau 2000
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru, 2000
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth (dogfen ymgynghori), 2000
- Cyfanfyd - Canllaw Arfer Da i Gymru ar Waith Ieuenctid Byd-eang, 2007
- Momodou Sallah a Sophie Cooper - Global Youth Work: Taking It Personally
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru (Cyfarwyddyd a Chanllawiau), 2002
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, 2003
- Estyn - Fframwaith Arolygu Cyffredin Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 2003
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007, 2004
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Plant a Phobl ifanc: Gweithredu'r Hawliau, Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau, Arweiniad ar Gydweithrediad Lleol o dan Ddeddf Plant 2004, 2005
- Ian M Russell - Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ennyn Diddordeb a Meithrin Gweithgarwch ymysg Ieuenctid, Adroddiad Comisiwn Russell, Llyfrfa Ei Mawrhydi 2005
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Strategaeth Ieuenctid Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc (11-25) o'r Gymraeg, 2005
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu (dogfen wybodaeth), 2006
- Estyn - Arweiniad ar Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, Fersiwn ddiwygiedig Ebrill 2007
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Llwybrau Dysgu 14-19 Cylchlythyr CCC Rhif 17/2006, Ebrill 2006

ADCDF: Dealltwriaeth
Gyffredin ar gyfer
y Sector Gwaith Ieuenctid

Tachwedd 2008

Dogfen Wybodaeth
Rhif: 068/2008

- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, 2006
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu, Dogfen Wybodaeth AADGOS Rhif: 017-06, Medi 2006
- Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru - Bod â Llais - Bod â Dewis - A ydym yn cyrraedd eich Safonau Cyfranogi?, 2007
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Pobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid - Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru, Mawrth 2007
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru, 2007
- Cynhadledd Sefydlog Gwaith Ieuenctid yng Nghymru - Y Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, Mawrth 2007
- Yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol - National Framework of Awards in the Non-Formal Education Setting, Ebrill 2007
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang: Strategaeth Weithredu - diweddariad, Ionawr 2008
- Dysgu Gydol Oes y DU - Professional and National Occupational Standards for Youth Work, 2008
- Dysgu Gydol Oes y DU - Safonau proffesiynol cyffredinol newydd ar gyfer athrawon, hyfforddwyr a thiwtoriaid o fewn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru, 2008
- Llywodraeth Cynulliad Cymru - Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, Gorffennaf 2008
- Estyn - Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru, Mai 2008